

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I: CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR

PWNC: PWYLLGOR ARCHWILIO - 1 AWST 2017

ADRODDIAD GAN: SWYDDOG CYMORTH BUSNES DEMOCRATAIDD A CHORFFORAETHOL

PRESENNOL: MR. PETER WILLIAMS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr L. Elias (Is-gadeirydd)

M. Cross

G.A. Davies

G.L. Davies

P. Edwards

D. Hancock

M. Holland

W. Hodgins

H. McCarthy, B.A. (Anrh)

L. Parsons

S.C. Thomas

H. Trollope

GYDA: Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
Pennaeth Archwilio Mewnol
Prif Gyfrifydd Gwasanaethau Corfforaethol
Rheolwr Archwilio
Swyddog Gwybodaeth a Llywodraethiant

A: **Swyddfa Archwilio Cymru**
Neill Hollis

PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

EITEM	PWNC	CAM GWEITHREDU
1	<p><u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u></p> <p>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>	
2	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Adroddwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:</p> <p>Cynghorwyr G. Collier, S. Healy, M. Moore a Mr. Phil Pugh, Swyddfa Archwilio Cymru.</p>	
3	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.</p>	
4	<p><u>PWYLLGOR ARCHWILIO</u></p> <p>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017.</p> <p>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.</p>	
5	<p><u>DALEN WEITHREDU</u></p> <p>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017.</p> <p>PENDERFYNWYD nodi'r ddalen weithredu.</p>	
6	<p><u>PWYLLGOR ARCHWILIO ARBENNIG</u></p> <p>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Arbennig a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017.</p> <p><u><i>T.19 Cynllun Archwilio Mewnol Strategol 2017-2022</i></u></p>	

	<p>Cafwyd trafodaeth pan ofynnodd Aelod am eglurhad am y penderfyniad a amlinellir yn y cofnodion parthed swydd newydd Uwch Archwilydd. Roedd yn deall y cytunwyd y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol ar sail cyfnod sefydlog 2 flynedd yn y lle cyntaf, ac yna ei hysbysebu'n allanol ar sail barhaol, gan fod y Swyddog wedi dweud ei bod yn annhebygol iawn y byddai swydd cyfnod sefydlog o 2 flynedd yn ysgogi digon o ddiddordeb.</p> <p>Mewn ymateb cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol yn y lle cyntaf, ar sail cyfnod sefydlog 2 flynedd ac yn unol â phroses benodi'r Cyngor. Pe na dderbynnid ceisiadau gyda chymwysterau addas, byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu'n allanol ar sail cyfnod sefydlog 2 flynedd. Fodd bynnag, yn ystod y drafodaeth roedd y Swyddog wedi dweud efallai na fyddai swydd cyfnod sefydlog 2 flynedd yn denu lefel ddigonol o ddiddordeb ac felly cytunodd y Pwyllgor os felly, y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu'n allanol ar sail barhaol, fel yr adlewyrchir yn y cofnodion.</p> <p>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion.</p>	
7	<p><u>DALEN WEITHREDU</u></p> <p>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o'r Pwyllgor Archwilio Arbennig a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017, yn cynnwys:-</p> <p><u><i>Aneurin Leisure</i></u></p> <p>Dywedodd y Swyddog Gwybodaeth a Llywodraethiant, ar ôl adolygu'r contract, nad oedd unrhyw reidrwydd i'r Ymddiriedolaeth ddod gerbron y Pwyllgor Archwilio, fodd bynnag roedd prosesau yn eu lle i'r Awdurdod fonitro ac adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth ac iddynt gyflwyno Cynlluniau Datblygu Gwasanaeth ar gyfer y Cyngor. Dywedodd y Swyddog y byddai'n cylchredeg gwybodaeth contractiol i Aelodau.</p> <p>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen</p>	<p>Swyddog Gwybodaeth a Llywodraethiant</p>

	weithredu.	
8	<p><u>DRAFFT DDATGANIAD CYFRIFON</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.</p> <p>Cyflwynodd Prif Gyfrifydd Gwasanaethau Corfforaethol y Drafft Ddatganiad Cyfrifon ar gyfer 2016/17, a baratowyd yn unol â'r rheoliadau perthnasol a gan gydymffurfio gydag Adran 10(1) Rheoliadau 2014.</p> <p>Cadarnhaodd i'r drafft Ddatganiad Cyfrifon gael eu llofnodi a'u dyddio gan y Prif Swyddog Cyllid ar 23 Mehefin 2017, a'u cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer archwiliad.</p> <p>Dechreuodd cyfnod o arolygu cyhoeddus ar 24 Gorffennaf a byddai hyn yn parhau hyd 18 Awst 2017. Dywedodd yr Archwilydd mai'r dyddiad cau oedd 22 Awst os oedd etholwyr eisiau gweithredu eu hawl i wrthwynebu, ac y rhoddir adroddiad ar wahân am unrhyw fater sy'n codi o'r cyfnod arolygu. Dywedodd y Swyddog y gobeithid cwblhau archwilio cyfrifon ac unrhyw ddiwygiadau yn ystod mis Awst a chyflwyno'r datganiad olaf i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi ac wedi hynny gobeithid derbyn Barn Archwilio glir neu ddiamod. Rhoddir adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio bryd hynny am unrhyw newidiadau neu broblemau.</p> <p>Mae Adran 4 yr adroddiad yn amlinellu drafft sefyllfa ariannol yr Awdurdod ac yn dangos y materion mwyaf sylweddol sy'n effeithio ar y Cyfrifon. Mae'r drafft wariant referniw a'r alldro yn dangos sefyllfa ffafriol o £0.071m o gymharu gyda'r gyllideb ddiwygiedig am y flwyddyn, ac mae'r sefyllfa gyffredinol yn dangos gostyngiad o £0.209m yn y Gronfa Cyngor ar ôl tynnu £4.664m o'r gronfa gadw a neilltuwyd.</p> <p>Dywedodd y Swyddog fod cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gallai'r Cyngor eu defnyddio wedi gostwng gan £4.397m yn 2016/17. Cytunodd y Cyngor i osod lefel darged o 4% ar gyfer Cronfa'r Cyngor, ac fel yn 31 Mawrth 2016 roedd balans Cronfa'r Cyngor o £6.072m yn gyfwerth â 4.55% o wariant referniw net. Mae hyn wedi gostwng i £5.863m o wariant</p>	

	<p>refeniw net fel ar 31 Mawrth 2017, sy'n parhau i fod yn uwch na'r lefel targed. Fodd bynnag, o gofio am y defnydd a fwriadwyd o gronfeydd wrth gefn yn ystod 2017/18, rhagwelir y byddai balans y Gronfa Cyngor yn disgyn dan y targed o 4% ac felly y dylid ystyried cynllun gweithredu i adfer Cronfa'r Cyngor i'r lefel a gytunwyd.</p> <p>Cafwyd trafodaeth fer pan eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Ariannol bwyntiau a godwyd gan Aelod, a</p> <p>PHENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a:-</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Bod y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r adroddiad a drafft Ddatganiad Cyfrifon 2016/17; a ii. Wrth fonitro cyllidebau ar gyfer 2017/2018, gosod Cyllideb Refeniw ar gyfer 2018/2019 ac wrth ddatblygu cynlluniau gwariant tymor canol yn y dyfodol bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i sefyllfa ariannol yr Awdurdod, fel yr adroddir o fewn y Drafft Ddatganiad Cyfrifon a atodir ar gyfer 2016/2017. 	
<p>9</p>	<p><u>DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Archwilio mewnol.</p> <p>Cyflwynodd Pennaeth Archwilio mewnol y drafft Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2016/17 sy'n nodi'r fframwaith llywodraethiant a fwriedir ar gyfer yr Awdurdod a'i berfformiad ar yr egwyddorion craidd, a hefyd argymhellion ar gyfer datblygu a chynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Dilynodd trafodaeth fer pan eglurodd y Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelodau.</p> <p>Cyfeiriodd Aelod at y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar dudalen 254 y ddogfen a holodd am y sancsiynau ariannol posibl fel canlyniad diffyg cydymffurfiaeth gyda Deddf yr Iaith Gymraeg.</p> <p>Mewn ymateb dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol nad oedd y manylion llawn yn hysbys hyd yma a</p>	<p>Pennaeth Gwsanaethau</p>

	<p>dywedodd y byddai'n rhoi adroddiad yn ôl ar y mater. Fodd bynnag, cadarnhaodd os canfyddir nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio ar unrhyw un o Safonau'r Gymraeg, y gallai fod cosb ariannol ar gyfer pob un achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. Er nad oedd y Cyngor wedi cael unrhyw gosbau ariannol hyd yma, roedd yn risg bosibl ar gyfer y dyfodol.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Archwilio yn cydnabod cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, gan felly sicrhau ei fod yn gyson gyda'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r materion ehangach sy'n effeithio ar y Cyngor.</p>	Ariannol
10	<p><u>ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN ARCHWILIO EBRILL I FEHEFIN 2017</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio</p> <p>Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio yr adroddiad a roddodd ddiweddariad ar y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mehefin 2017.</p> <p>Cadarnhaodd y Swyddog y cafodd y gweithgareddau yn ystod y cyfnod eu nodi yn Atodiad A, a bod y fformat yn dangos crynodeb o ganfyddiadau o adroddiadau archwilio a gynhrychwyd yn y cyfnod yn cynnwys y Farn Archwilio Ffurfiol lle'n briodol. Lle caiff archwiliadau eu graddio yn Gyfyngedig neu Dim Sicrwydd, cyflwynir crynodeb archwilio mewnol i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw Adroddiadau Cryno Archwiliad Mewnol ar gyfer y cyfnod hwn. Caiff yr archwiliadau dilynol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod lle na weithredwyd gwendidau yn Atodiad B.</p> <p>Yn nhermau perfformiad, y targed a osodwyd ar gyfer cyflawni'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2017/18 oedd 83%, sy'n gyson gyda'r cyflawniad ar gyfer 2016/17 ac yn debyg i ganran cyfartalog Cymru o 85% (2015/16).</p> <p>Cadarnhaodd y Swyddog fod yr Adran wedi cwblhau 19.76% o'r Cynllun Archwilio yn erbyn targed o 20.75% ac roedd hefyd yn falch i adrodd na fu unrhyw absenoldeb salwch.</p>	

	<p>Gofynnodd Aelod os y gwnaed unrhyw gynnydd ar bosibilrwydd dyrannu dyddiau archwilio ychwanegol i'r Amgylchedd, a godwyd yn y cyfarfod blaenorol.</p> <p>Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddog y trefnwyd cyfarfod ar gyfer yr wythnos ddilynol i drafod cynnydd a llunio archwiliadau ychwanegol yn y maes hwnnw i fodloni'r Cynllun Archwilio, a dylai manylion pellach fod ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cyfeiriodd Aelod arall at Atodiad A yn t.271 a holodd am yr ymchwiliad arbennig mewn Gwasanaethau Technegol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol na fedrai roi unrhyw fanylion gan fod yr ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn yr adroddiad a'r atodiadau ac yn nodi cynnydd ar weithgareddau o Gynllun Archwilio 2017/18.</p>	
11	<p><u>SIARTER ARCHWILIO MEWNOL</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol.</p> <p>Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig ar gyfer 2017/18. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gael Siarter Archwilio Mewnol yn nodi diben, awdurdod a chyfrifoldeb y Gwasanaeth. Cafodd y Siarter ei adolygu'n flynyddol gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio.</p> <p>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r adroddiad a'r Siarter Archwilio Mewnol atodedig, yn unol ag arfer da a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).</p>	